CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **Nos Lun, 2ail o Fedi 2019** am 6.30y.h. yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llangefni.

PRESENNOL :

Cyng. Margaret Thomas – Cadeirydd
Cyng. Llinos G. Jones
Cyng. John Lee
Cyng. Dylan W. Rees
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Richard Parry
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. Terry Jones
Cyng. Non W. Parry
Cyng. Christine Roberts
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Victor Hughes.

HEFYD YN BRESENNOL :

Mr. Rhys Parry - Clerc
Ms. Linda Powell – Cymorthydd Clerigol
Heddlu : PS2150 Neil Jones , C3915 Sioned Williams.

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod cyntaf tymor yr Hydref yn dilyn egwyl mis Awst 2019.

19/090 YMDDIHEURIADAU : Cyng. Arwel Môn Hughes, Cyng. Ann Williams

19/091 DATGANIAD O DDIDDORDEB : Cyng. Dylan W. Rees - Eitemau : 19/092 Ystâd Pen Derwydd, 19/097 Clwb Pêl Droed.

19/092 HEDDLU :

1 **Ystâd Pen Derwydd :** Swyddog o'r Heddlu yn adrodd fod difrod i ffens tu cefn i dy Rhif 25 wedi digwydd yn ddiweddar wrth i blant ddefnyddio'r llethr maent wedi creu, fel llwybr answyddogol, ac yn arbed eu hunain ar y ffens. Swyddog yn ailadrodd y pwysigrwydd fod perchnogion y tai yn galw llinell 101 i gofnodi'r difrod, ond doedd dim galwadau o Ystâd Pen Derwydd wedi eu derbyn yn ddiweddar.

Cyng. Dylan W. Rees a Cyng. Victor Hughes wedi ymweld â'r safle i edrych ar y posibilrwydd o osod carreg fawr i gau'r bwlch i atal y plant rhag defnyddio'r llethr. Cyng. Dylan Rees yn adrodd fod y trigolion yn croesawu'r awgrym yma ynghyd a gosod Arwydd rhybudd ar ben y llethr yn dweud fod y llwybr ar gau. Heddlu yn cytuno gyda'r awgrym i osod Arwydd.

Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw fod angen Arwyddion i beidio defnyddio'r llwybrau ar y ddau ochr a'r Clerc i gael cyngor ar eirfa briodol i'r Arwydd.

Cyng. Llinos Jones yn datgan fod perchennog y tir tu cefn i'r Ystâd ddim wedi cynnal a chadw'r safle ers rhai blynyddoedd ac yn awgrymu cysylltu gyda'r tirfeddiannwr i roi pwysa arno i gydnabod ei gyfrifoldebau. Clerc yn adrodd ei fod wedi derbyn cyngor , gan nad ydyw'r tir o dan reolaeth y Cyngor Tref, i gadw allan o'r ddadl.

Yn dilyn trafodaeth ar yr uchod **PENDERFYNWYD :**

(i) gofyn i'r Clerc drefnu i gael gosod Arwydd Rhybudd tu cefn i Ystâd Pen Derwydd yn y lle cyntaf, wedyn ystyried ail Arwydd y pen arall;

(ii) Rhoi gwybod i'r achwynydd am hyn.

Wrth drafod yr uchod, Cyng. J. Egryn Lewis yn awgrymu, ar gyfer Cyllideb y flwyddyn nesaf, i glustnodi arian tuag at waith graddol i osod ffens iawn neu wrych ar derfyn Maes Chwarae Nant y Pandy ac yn dilyn i lawr yr ochor arall tuag at ardal y Dingle. Cyng. Richard Parry yn ychwanegu'r angen i sicrhau terfyn y Cyngor Tref sydd yn disgyn ar gyfrifoldebau cyfreithiol.

PARHAD
19/057

2 **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o gwmpas y dref :** Swyddog o'r Heddlu yn adrodd fod y sefyllfa camddefnyddio cyffuriau o gwmpas y dref wedi gwella yn ystod yr wythnosau diwethaf yn enwedig lle'r oedd y troseddwyr yn casglu o gwmpas y grisiau ger yr Afon. Dim ond un galwad 101 wedi ei dderbyn i gofnodi cwyn. Swyddog yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod system "POP" (Problem-Oriented Policing) mewn lle sydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu trefn strategaeth i atal a lleihau troseddau gyda phwerau i arestio a chwilio gan rhai Swyddogion.
Cyng. Ieuan G. Davies yn datgan pryder fod gangiau yn gweithredu trwy "County Lines" ac yn symud eu lleoliadau i ddelio mewn cyffuriau. Heddlu yn ymwybodol o hyn ac yn wyliadwrus.
Swyddogion yr Heddlu yn cadarnhau eu bod wedi gofyn i berchenogion Siopau'r dref os ydyw'r materion uchod yn effeithio ar eu busnesau, dydi hyn ddim, ond mae'r perchnogion a phobl y dref yn teimlo'n anghyfforddus.
Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw fod Hysbysfwrdd y Cyngor Tref, sydd wedi ei leoli yng nghanol y dref, wedi cael ei fandaleiddio yn ystod yr wythnos gyntaf o fis Awst. Cadeirydd yn datgan fod difrod yr un amser wedi eu gwneud i blanhigion o gwmpas y dref.

3 **Lloches, Cae Pêl Droed, Lon Talwrn :** Awgrymiad i ail-leoli'r Lloches yn waelod Cae Chwarae Maes Hyfryd ger y Fynwent. Cyn mynd ymlaen gyda hyn, Clerc yn adrodd fod y Cyngor Tref wedi holi'r Heddlu, a oes gydnabyddiaeth ariannol i'r Gymuned neu Grant ar gael ar gyfer yr ail-leolid. Disgwyl ymateb.

Cyng. John Lee yn tynnu sylw'r Heddlu fod llinellau gwyn/melyn dwbl i lawr Allt Station, Stryd y Cae tuag at gyffordd Ffordd Glandŵr wedi pylu. Cadeirydd yn adrodd mai cyfrifoldeb Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn ydyw hyn, ac nid yr Heddlu. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc dynnu hyn i sylw'r Cyngor Sir.

Cadeirydd yn diolch i Swyddogion yr Heddlu am eu mewnbwn.

19/093 **<u>I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 01.07.2019</u>**

Cyng. Dylan W. Rees yn tynnu sylw at Eitem 19/067 o'r Cofnodion, o dan "Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn", Comisiwn Ffiniau, i ddarllen ... o leiaf tri Chynghorydd Sir ychwanegol i'r Ynys... ac nid Ward Canolbarth Môn, fel y cofnodwyd.
Yn dilyn y cywirdeb uchod, Cyng. Dylan W. Rees yn Cynnig a Cyng. Ieuan G. Davies yn Eilio derbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

19/094 **<u>I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 01.07.2019</u>**

1 **<u>Eitem 19/094.1 – GDPR – Rheolau Diogelu Data Cyffredinol –</u>** Clerc yn adrodd fod y Cadeirydd a Cymorthydd Clerigol wedi cwblhau'r Cwrs uchod Dydd Gwener 30ain o Awst 2019 ac wedi derbyn Tystysgrif. Cyng. Christine Roberts yn cadarnhau ei bod yn y broses o ddilyn y cyfarwyddiadau Ar-lein i gwblhau'r Hyfforddiant.

2 **<u>Eitem 19/094.2 - Y Bont Rheilffordd, Ffordd Glanhwfa -</u>** Cadeirydd yn cyfeirio at ohebiaeth Heddlu Gogledd Cymru yn esbonio pam nad oedd dim erlyn yn dilyn y ddamwain a ddifrododd strwythur y Bont. Cyng. Victor Hughes yn datgan siom am y wybodaeth a ddaeth i law gan bryderu fod Newtork Rail ddim, ar hyn o bryd, wedi mynd trwy'r broses o wneud cais hawl trwy'r Cwmni Loriau am arian Yswiriant i adnewyddu'r Bont Rheilffordd.
PENDERFYNWYD gweithredu a chefnogi pan ddaw datblygiadau swyddogol i sylw'r Cyngor Tref.

PARHAD 19/094

3 **Eitem 19/094.3 - Arwyddion, Lon Cyswllt -** Cadeirydd yn cyfeirio at e-bost 23.07.2019 wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Mon, yn cadarnhau fod arwyddion pwrpasol yn cael eu gosod i gyfeirio cerbydau masnachol/loriau ar hyd y ffordd yn arwain i'r Ystâd Ddiwydiannol. Cadeirydd yn datgan derbyn mai'r Adran Priffyrdd sydd yn gyfrifol am yr Arwyddion a'u bod yn cydymffurfio gyda gofynion Cyngor Sir Ynys Mon. **Derbyn.**

4 **Eitem 19/094.4 - System C.C.T.V.** - Cadeirydd yn cadarnhau fod y coed oedd yn aneglur lluniau Camerâu CCTV wedi cael eu tocio ar 4ydd o Awst 2019. Aelodau yn tynnu sylw at ordyfiant coed eraill o gwmpas y dref sydd yn tyfu rhy uchel, e.e. Allt Station. Cadeirydd yn adrodd ei bod wedi gofyn i Swyddog o Adran Cynllunio,Gyngor Sir Ynys Mon, roi sylw i goed y dref i gyd, ond wedi cael ymateb fod y coed yn cael eu tocio bob dwy flynedd oherwydd prinder arian. **Derbyn.**

5 **Eitem 19/094.5 - Neuadd y Sir -** Clerc yn adrodd ar ymatebion y Prif Weithredwr Cynorthwyol yn dilyn pryder Cyngor Tref Llangefni ar y drefn o farchnata a gwerthiant Neuadd y Sir. Clerc yn siomedig ar gynnwys y llythyrau gan ddatgan fod y Cyngor Tref wedi gwneud ymdrech i brynu'r adeilad a hefyd i arbad ail-leoli'r Swyddfa Gofrestru. Clerc yn adrodd ymhellach fod gwerthiant Neuadd y Sir wedi cwblhau a'r Dogfennau wedi ei harwyddo ar 22ain o Awst 2019. Mwy o fanylion o dan Eitem 19/100 - Adroddiad y Clerc.

6 **Eitem 19/094.6 - Arwyddion "Ysgol" Ystâd Ddiwydiannol -** Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Mon wedi cadarnhau i gael gwared â'r Arwyddion - **Derbyn.**

19/095 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO 17.07.2019**

1 Cyng. Dylan W. Rees yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

2 **Materion Cynllunio :** Cadeirydd yn cyfeirio at e-bost 17.07.2019, Adran Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Mon, yn ymddiheuro nad adroddwyd sylwadau o wrthwynebiad y Cyngor Tref ynglŷn â Chais FPL/2019/40 mewn perthynas i'r Clwb Golff. (Gwrthwynebiad wedi ei anfon i'r Cyngor Sir 21.03.2019). Cadeirydd yn datgan siom fod y Cyngor Sir wedi cael ei effeithiau yn anghywir a bod Datganiad camarweiniol, wedi ymddangos yn y Wasg o anfantais i'r Cyngor Tref. Cyng. Llinos G. Jones yn datgan dylid Cyngor Sir Ynys Mon esbonio'r camarweinied uchod i'r Cynghorydd Sir a gyflwynwyd yr erthygl i'r Wasg. **Derbyn.**

19/096 **I DDERBYN ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL 29.07.2019**

Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Ieuan G. Davies yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw dylid cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor uchod gael yr amserlen llawn a dim cyfarfod arall i ddilyn a'i cynnal yr un noson. Cadeirydd yn esbonio'r rheswm am hyn y tro yma a'r Clerc yn adrodd ei fod wedi derbyn cyngor gan Un Llais Cymru ac yn esbonio fod y drefn yma yn gwbl dderbyniol. Cyng. J. Egryn Lewis yn anfodlon gyda'r ymateb. Cadeirydd yn datgan i sicrhau fod pob cyfarfod Is-bwyllgorau yn cael amserlen llawn. **Derbyn.**

19/097 **I DDERBYN ARGYMHELLION CYFARFOD ARBENNIG IS-BWYLLGOR Y FYNWENT A MEYSYDD CHWARAE 29.07.2019**

Cyng. John Egryn Lewis yn cynnig a Cyng. Ieuan G. Davies yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

19/098 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER

1 **04.07.2019 – Derbyniad Blynyddol RAF Y Fali –** Ymddiheuro oherwydd ymrwymiad arall.

2 **26.07.2019 - Cyflwyniad "Fundaction Real Madrid Clinic" -** Y Maer yn adrodd bod yr wythnos wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda nifer o blant wedi mynychu. Y Maer wedi cyflwyno Tystysgrif i'r plant ac yn adrodd fod trefniadau mewn lle i drefnu "Clinic" eto flwyddyn nesaf.

Cyng. John Lee yn pryderu fod llawer o blant ddim yn gallu mynychu oherwydd y gost a Chyng. Llinos Jones yn awgrymu dylid cynnig opsiwn i rieni'r plant i dalu yn fisol. Cadeirydd a'r Aelodau yn gefnogol o'r awgrym yma ac am fwydo hyn yn ôl i'r Trefnwyr ar gyfer flwyddyn 2020. **Derbyn.**

19/099 MATERION YN CODI GAN AELODAU

1 **Cyng. Non W. Parry – Meinciau ger Fflatiau Glan Cefni :** Cyng. Non Parry yn gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Mon, yn tynu sylw fod angen meinciau yn yr ardal yma ar gyfer y trigolion. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd i ddatrys y ffordd ymlaen.

Cyng. Victor Hughes yn awgrymu defnyddio deunyddiau ail-gylchu ar gyfer y Meinciau.

2 **Cyng. J. Egryn Lewis - Y Gofeb o flaen Neuadd y Sir :** Cyng. J. Egryn Lewis yn adrodd, yn dilyn gwerthiant Neuadd y Sir, ei fod ddim yn glir ym mherchnogaeth pwy mae'r Gofeb. Clerc yn ymateb, wrth ddarllen paragraff o lythyr Cyngor Sir Ynys Mon dyddiedig 21.06.2019, yn cadarnhau nid yw'r Gofeb, nac y tir maent yn sefyll arno, yn rhan o'r gwerthiant nac ym mherchnogaeth y Cyngor Sir. Clerc am wneud ymchwil i edrych i mewn i'r cyfrifoldebau cynnal a chadw a pherchnogaeth y Cofebion. Cyng. Huw Owen yn holi os oes Cymdeithas yn gwarchod Gofebau'r dref. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau ynglŷn â hyn.

19/100 ADRODDIAD Y CLERC

1 **Neuadd y Sir -** Clerc yn adrodd fod gohebiaeth wedi ei dderbyn gan Berchennog newydd Neuadd y Sir, "Chief Properties Ltd" yn datgan fod y gwerthiant wedi ei gwblhau ar 22ain o Awst 2019. Clerc yn esbonio cynnwys yr ohebiaeth i'r Aelodau, fel a ganlyn :

- Cyngor Tref i dalu chwe mis o rent yn syth fel blaendal;
- Taliad am wythnos diwethaf Mis Awst, a chychwyn talu'r gweddill yn syth.

Clerc yn arwain yr Aelodau trwy amodau :

(i) **Cyn Trwyddedwr**, Cyngor Sir Ynys Mon, o dan Drwydded ddyddiedig 31ain o Ionawr 1979 a wnaed rhwng (1) Cyngor Sir Gwynedd a (2) Cyngor Tref Llangefni ("Y Drwydded"). Mae'r Cyn Trwyddedwr wedi trosglwyddo ei ddiddordeb yn yr Eiddo i'r Trwyddedwr Newydd ar 22ain o Awst 2019;

(ii) **Cyn Lletywr,** Cyngor Sir Ynys Mon, o dan y Les dyddiedig 9fed Gorffennaf 2003 a wnaed rhwng (1) Cyngor Sir Ynys Mon a (2) Cyngor Tref Llangefni ("Y Les"). Mae'r Cyn Lletywr wedi trosglwyddo ei diddordeb yn yr Eiddo i'r Lletywr Newydd ar y 22ain o Awst 2019.

Yn dilyn trafodaeth ar gynnwys y ddwy ddogfen uchod, ynghyd a phryderon cyffredinol yn ymwneud a dyfodol Swyddfa'r Cyngor Tref a defnydd o'r Siambr, **PENDERFYNWYD :**

- I ofyn am sylwadau Cyfreithiwr y Cyngor Tref ar gynnwys yr holl ddogfennau uchod;
- I dderbyn barn Gyfreithiwr NALCC hefyd os bu angen;

PARHAD
19/100

- Dim talu rhent nes mae materion cyfreithiol wedi eu datrys, ac amodau i gyd mewn lle;
- Y Maer, Dirprwy Faer a'r Clerc i gyfarfod gyda'r Perchennog Newydd i weld beth mae yn gynnig i'r Cyngor Tref fel telerau a.y.b. cyn gwneud unrhyw ymateb;
- Trefnu Cyfarfod Arbennig, os bu angen, cyn dod i gytundeb ynglŷn â'r taliadau rhent.

2 **Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen 06.12.2019 -** Cadeirydd yn adrodd fod Gweithgareddau mewn lle a threfniadau'r arddangosfa goleuadau yn mynd ymlaen trwy'r Swyddfa.

3 **Ffurflen i Ddatgan Diddordeb Ariannol neu Ddiddordeb Ymgofrestredig -** Clerc yn atgoffa'r 6 Aelod sydd ddim wedi cwblhau a dychwelyd y Ffurflen i'r Swyddfa. Clerc yn tynu sylw fod yn Ofynnwyd Statudol i gyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau Aelodau ar Safle We'r Cyngor Tref.

4 **Sul y Cofio 10.11.2019 -** Clerc yn hysbysu'r Aelodau o'r trefniadau eleni gan gadarnhau bydd yr Orymdaith yn cyfarfod yn Faes Parcio, Neuadd y Dref. Cadeirydd yn cadarnhau fod Trefnydd yr Orymdaith yn galw i mewn i'r Swyddfa wythnos nesaf, i fynd trwy'r drefn.

5 **Mynwent Llangefni -** Clerc yn adrodd ei fod wedi holi gyda Swyddog o Goleg Menai am y Cwrs Garddio sydd yn rhedeg a'r posibilrwydd i Fyfyrwyr wirfoddolwyr i gymhorthi gyda gwaith garddio o gwmpas y Fynwent a lleoliadau eraill o dan reolaeth y Cyngor Tref. Clerc yn disgwyl ymateb swyddogol ac yn cadarnhau fod Yswiriant priodol mewn lle ar gyfer yr uchod. **Derbyn.**

6 **Ardal Isgraig -** Clerc yn adrodd ei fod wedi derbyn cais gan berchennog tŷ ar Ystâd Isgraig i ddymchwel rhan o'r wal derfyn/clawdd rhwng ei eiddo a Chae Chwarae Lon Newydd. Yn dilyn cymorth cyfreithiol, Clerc yn arwain yr Aelodau trwy ddyfyniad "Indenture" dyddiedig 13eg o Dachwedd 1911 sydd yn datgan mai'r Cyngor Tref sydd yn gyfrifol am y terfyn rhwng y Cae Chwarae a'r eiddo.
PENDERFYNWYD fod perchennog y tŷ yn cydymffurfio gyda'r uchod a'r Clerc i roi gwybod o hyn iddo.

19/101 **ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL**

1 **Cyfarfod Grŵp Partneriaeth Llifogydd - 04.07.2019 -** Cyng. Non W. Parry yn adrodd fod y wal tu cefn i Deras Glandwr ddim digon cryf ac angen ei atgyfnerthu ac yn tresmasu ar dir y perchnogion. Tynnwyd hyn i sylw Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Mon.
Cyng. Non Parry yn adrodd bydd yn mynychu Sesiwn Briffiau yn St. Asaph ar Yswiriant yn Gogledd Cymru er mwyn cael gwybod beth sydd i'w gynnig i berchnogion tai/busnesau o fewn Gorlifdir. Cyng. Parry yn adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn nesaf.
Cyng. Non Parry yn cyfeirio at Sesiwn Galw i Mewn ynglŷn â llifogydd - mwy o wybodaeth o dan Eitem 19/104.3 o'r Rhaglen ac yn cadarnhau fod gwahoddiad yn cael ei anfon at drigolion i roi mewnbwn. **Derbyn.**

2 **Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – 18.07.2019 –** Cofnodion yn Atodol, er gwybodaeth. Unrhyw fater i fynd yn ôl i'r Fforwm i'w cyflwyno i'r Cynrychiolwyr.

Er gwybodaeth :

3 **Un Llais Cymru – Model Brotocol ar Gyfer Datrysiadau Anffurfiol - Derbyn**.

4 **Cynllun Strategol Newydd Grwp Llandrillo Menai - Derbyn.**

19/102 **CYLLID**

1 **Mantolen Ariannol Mis Gorffennaf 2019 –** Cyng. Llinos Jones yn gofyn am esboniad o'r ddau daliad Tanwydd ar yr un diwrnod. Cymorthydd Clerigol yn egluro'r rheswm am hyn.

PARHAD
19/102

2 **Mantolen Ariannol Mis Awst 2019 -** tynu sylw at daliadau canlynol :
(i) Gwmni"Monitoring Services Alarms" - Ty Clwb, Lon Talwrn - Clerc yn esbonio fod y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn y gorffennol a bod y taliad yn ddyledus i'r Cwmni;
(ii) Treth, Pafiliwn Bowlio, Lon Las – Cadeirydd yn adrodd fod siec yn ddyledus gan y Clwb Bowlio fel cyfraniad tuag at y taliad;
(iii) Rhent Afon Cefni yn ymddangos dwywaith ar y Fantolen - Clerc yn esbonio fod y llinell wedi cael ei gynnwys ar yr ail dudalen mewn camgymeriad a bod ddim yn effeithio ar y cyfanswm.
Cyng. Dylan W. Rees yn Cynnig a Cyng. Richard Parry yn Eilio i dderbyn Mantolen Misoedd Gorffennaf ac Awst. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

3 **BDO – Ffurflen Flynyddol 2018-2019 –** Aelodau wedi derbyn Adroddiad Archwiliad Mewnol Cyngor Gwynedd 2018-2019 – Dim trafodaeth.

19/103 **ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN**
Cyng. Dylan W. Rees yn adrodd fod Mis Awst wedi bod yn ddistaw, a'r canlynol i'w gyflwyno :

- Cyngor Sir Ynys Mon wedi penodi Prif Weithredwr a bydd swydd i un Ddirprwy ;
- Ail-gychwyn proses moderniaeth Dalgylch Llangefni - Pwyllgor Scrwtini yn newid strwythur Ysgolion Llangefni.

19/104 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD**
Gohebiaeth :

1 **Cyfraniadau 2018-2019 –** Llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn gan Ambiwlans Awyr Cymru.

2 **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol -** Llythyr dyddiedig 12.07.2019, er gwybodaeth. Dim trafodaeth.

3 **Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Dwr Cymru** - **Sesiwn Galw i Mewn - Gwesty'r Bull, 23ain o Fedi, rhwng 3.00y.p. a 6.00y.h.**

19/105 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH**

1 **Un Llais Cymru –** Materion wedi eu hafon drwy e-bost yn ystod Misoedd Gorffennaf/ Awst 2019 - **Derbyn**

2 **Materion Eraill –** Materion Eraill wedi eu hanfon drwy e-bost yn ystod Misoedd Gorffennaf/Awst 2019 - **Derbyn.**

19/106 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER**
Neuadd y Sir - Cadeirydd yn datgan ei siom fod Swyddogion o'r Cyngor Sir ddim wedi trafod na chyfathrebu gyda'r Cyngor Tref ar gynnwys y Les a'r Drwydded cyn mynd ymlaen gyd'r gwerthiant.
Adfywio Llangefni 10.09.2019 - Maer a'r Dirprwy Faer yn mynychu'r Cyfarfod ac yn adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn nesaf.

Cadeirydd yn mynegi cydymdeimlad diffuant i Cyng. Llinos Jones ar farwolaeth ei Thad.

19/107 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Lun, 7fed o Hydref 2019.**

CYNG. MARGARET THOMAS